FFEDERASIWN SAETHU TARGEDAU CYMRU

CYFANSODDIAD

1. Ffederasiwn Saethu Targedau Cymru (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Ffederasiwn) fydd yr enw.

2. Y cymdeithasau canlynol fydd aelodau'r Ffederasiwn:-

   Cymdeithas Saethu Targedau Clai Cymru
   Cymdeithas Reifflau Cymru
   Cymdeithas Reifflau Calibr Bychan Cymru
   Cymdeithas Gwnaer Cymru

3. Amcanion y Ffederasiwn fydd:-

   1. Hyrwyddo a datblygu saethu targedau fel camp yng Nghymru.

   2. Gweithredu fel corff ymgynghorol ar gyfer yr aelod-gymdeithasau.

   3. Cynrychioli Cymru at ddibenion saethu aml-ddisgyblaeth rhyngwladol.

4. Rheolir y Ffederasiwn gan Bwyllgor, a chaiff pob aelod-gymdeithas ei chynrychioli ar y Pwyllgor gan hyd at dri chynrychiolydd.

5. Bydd cynrychiolwyr y pwyllgor yn cael eu dewis o blith aelodau'r Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor, a/neu Gyngor pob aelod-gymdeithas, ond mewn argyfwng derbynnir eilyddion sy'n aelodau cyffredin o'r Gymdeithas. Saith cynrychiolydd fydd y cworwm.

6. Os bydd angen, cyfetholir rhywun sydd â gwybodaeth neu allu arbenigol; ond ni chaiff y person hwnnw unrhyw hawl i bleidleisio.

7. Bydd rhaid i benderfyniadau ar eitemau ar yr agenda gael eu gwneud gan fwyafrif o dair rhan o bump (h.y. 60%) o'r cynrychiolwyr sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

8. Caiff personau neu sefydliadau eraill eu gwahodd i fynychu ac i annerch cyfarfodydd y Pwyllgor ond ni fydd ganddynt unrhyw hawl i bleidleisio.

9. Y Ffederasiwn fydd y prif gynrychiolydd ar ran Saethu Targedau yng Nghymru wrth ymwneud â Chyngor Chwaraeon Cymru; yr Heddlu; y Fyddin; y Swyddfa Gymreig; Awdurdodau Lleol a Chyrff eraill y Llywodraeth, Asiantaethau, GBTSF, Cyrff Saethu Cenedlaethol y DU a chyrff cyffelyb.

10. Er y bydd pob cymdeithas yn dal i fod yn annibynnol, o ran cysylltiad â Chyngor Chwaraeon y Gymanwlad y Ffederasiwn yn unig fydd yn enwebu Tîm Saethu Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad. Dan gyfarwyddyd y cymdeithasau cyfansoddol bydd y Ffederasiwn yn dewis timau ar gyfer Pencampwriaethau Ffederasiwn Saethu'r Gymanwlad (gan gynnwys E. D.) o blith yr enwebiadau a gyflwynir gan gymdeithasau sy'n aelodau o'r Ffederasiwn.

11. Gwneud ceisiadau am gymorth grant a'u dosbarthu, a gall hyrwyddo cyrsiau hyfforddi ac ymarfer a gynhelir ar sail disgyblaeth unigol neu gyd-ddisgyblaeth, neu ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i'r aelod-gymdeithas briodol.

12. Bydd y Ffederasiwn yn penodi is-bwyllgorau er lles Saethu Targedau Cymru.

13. Bydd rhaid i'r Ffederasiwn gynnal o leiaf chwe chyfarfod y flwyddyn. Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ystod y tri mis cyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ionawr 1 – Rhagfyr 31).

14. Ni chaiff y Cadeirydd fod yn gynrychiolydd, a bydd ganddo/ganddi bleidlais fwrw. Bydd y Cadeirydd yn dal ei swydd am ddwy flynedd, a bydd yr Is-Gadeirydd, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd yn dal eu swyddi am flwyddyn. Gellir enwebu'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd am ail dymor. Ni chaiff unrhyw un wasanaethu am fwy na dau dymor yn olynol. Rhaid iddo/iddi roi'r gorau i'w swydd am o leiaf blwyddyn. Ni chaiff unrhyw swyddog fod yn gynrychiolydd a chaiff yr Is-Gadeirydd, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd eu hethol bob blwyddyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

15. Os digwydd i unrhyw un o swyddogion y Ffederasiwn farw neu ymddiswyddo (ac eithrio'r Cadeirydd fydd yn cael ei olynu gan yr Is-Gadeirydd), bydd rhaid i gyfarfod nesaf y Ffederasiwn ethol olynydd i'r swydd am weddill tymor y swydd dan sylw.

16. Dim ond mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu Gyfarfod Anghyffredin Blynyddol y ceir newid Cyfansoddiad y Ffederasiwn, ar yr amod y bydd o leiaf chwe wythnos o rybudd ysgrifenedig yn cael ei roi i Ysgrifennydd y Ffederasiwn gan Ysgrifennydd y Gymdeithas a'i fod yn cael ei gefnogi gan o leiaf un gymdeithas arall. Bydd rhaid i Ysgrifennydd y Ffederasiwn yn ei dro roi o leiaf pedair wythnos o rybudd i aelodau'r Ffederasiwn. Rhaid i fwyafrif o ddwy ran o dair o'r cynrychiolwyr pleidleisio sy'n bresennol yn y cyfarfod gymeradwyo newidiadau o'r fath.

17. Bydd tanysgrifiad yr aelod-gymdeithasau yn cael ei benderfynu gan y Ffederasiwn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a bydd y tanysgrifiad yr un fath i bob aelod-gymdeithas.

18. Mae'r Ffederasiwn yn gwbl yn erbyn defnyddio cyffuriau mewn chwaraeon, a bydd yn cymryd pa bynnag gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn sicrhau na fydd saethwyr yn defnyddio unrhyw sylweddau gwaharddedig sydd ar restrau cyrff Cenedlaethol neu Gyrff Rheoli. Bydd y Ffederasiwn yn sicrhau y bydd unrhyw saethwr/wraig sy'n euog o dorri'r rheol hon yn cael ei dd/disgyblu mewn modd nad yw'n llai llym na'r hyn sydd wedi'i bennu gan y corff Cenedlaethol neu Reoli.

19. Mae'r Ffederasiwn yn gwbl gefnogol i'r polisi o amddiffyn plant yn y gamp o saethu targedau, ac yn ymroddedig i'r polisi a nodwyd yn y ddogfen "Child Protection Policy for Target Shooting".

20 Os oes gan unrhyw aelod, swyddog neu weithiwr cyflogedig y Ffederasiwn fudd ariannol, uniongyrchol neu anuniongyrchol, mewn unrhyw gontract, contract arfaethedig neu unrhyw fater arall, a'i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod lle mae'r contract neu'r mater arall yn cael ei ystyried, yna bydd rhaid iddo/iddi ddatgan ei f/budd yn y cyfarfod cyn gynted ag sy'n bosibl wedi i'r cyfarfod gychwyn ac ni chaiff gyfranogi pan gaiff y contract neu fater arall ei ystyried neu ei drafod ac ni chaiff bleidleisio ar unrhyw agwedd arno.

1/3/2000